Institute for Fiscal Studies

Crynodeb gweithredol: Effaith diwygiadau Llywodraeth y DU ym meysydd treth, lles ac isafswm cyflog yng Nghymru

IFS Report R110

James Browne

1965 - 2015 50 E·S·R·C 50 YEARS SHAPING SOCIETY

Effaith diwygiadau Llywodraeth y DU ym meysydd treth, lles ac isafswm cyflog yng Nghymru

James Browne*

Institute for Fiscal Studies

Institute for Fiscal Studies
7 Ridgmount Street
London WC1E 7AE

* Ariannwyd yr adroddiad hwn gan Lywodraeth Cymru. Mae hefyd yn cydnabod yn ddiolchgar gefnogaeth gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) drwy Ganolfan Dadansoddi Microeconmaidd Polisi Cyhoeddus yn y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (cyfeirnod y grant ES/H021221/1). Casglwyd yr Arolwg Adnoddau Teuluol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a sicrhawyd ei fod ar gael drwy'r Gwasanaeth Data Economaidd a Chymdeithasol (ESDS), nad yw'n gyfrifol mewn unrhyw ffordd am ddehongli'r data. Cesglir data'r Arolwg Costau Byw a Bwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac fe'u dosberthir gan y Gwasanaeth Data Economaidd a Chymdeithasol. Atgynhyrchir deunydd hawlfraint y Goron gyda chaniatâd Rheolwr HMSO ac Argraffwr y Frenhines ar gyfer yr Alban. Mae'r awdur yn diolch i Sara Ahmad a Carl Emmerson am eu sylwadau ar fersiwn ddrafft o'r adroddiad. Cyfrifoldeb yr awdur fydd unrhyw wallau a hepgoriadau.

© Institute for Fiscal Studies, 2015

Crynodeb gweithredol

- Bydd y pecyn a gynigir gan Lywodraeth y DU o newidiadau i drethi a budd-daliadau (y rhai a gyhoeddwyd mewn digwyddiadau cyllidol hyd at a chan gynnwys Cyllideb mis Gorffennaf) i'w gyflwyno rhwng 2015-16 a 2019-20 yn lleihau incwm aelwydydd yng Nghymru £459 y flwyddyn ar gyfartaledd (colled gyfanredol o tua £600 miliwn). Yn fras mae hyn yr un peth mewn termau arian parod â'r cyfartaledd ar gyfer y DU gyfan, ond gan fod incymau cyfartalog yng Nghymru yn is na chyfartaledd y DU, mae hyn yn ganran fwy o incwm net.
- Ni fydd effaith y lleihad mewn incwm yr un peth mewn gwahanol fathau o aelwydydd. Bydd aelwydydd incwm is, yn enwedig y rhai sydd â phlant, yn colli tipyn mwy na'r swm hwn ar gyfartaledd. Bydd y newidiadau hyn yn cael llai o effaith ar aelwydydd a phensiynwyr sy'n well eu byd neu byddant hyd yn oed yn golygu eu bod yn well eu byd.
- Yn fras, mae aelwydydd incwm isel sy'n gweithio yn colli tua'r un peth ag aelwydydd incwm isel nad ydynt yn gweithio ar gyfartaledd. Fodd bynnag, bydd hyn yn newid yn dilyn cyflwyno credyd cynhwysol, gan fod credyd cynhwysol o fudd i rai aelwydydd sy'n gweithio, yn enwedig cyplau lle nad oes ond un yn ennill, ond yn lleihau incwm rhai aelwydydd nad ydynt yn gweithio.
- Bydd toriadau i fudd-daliadau di-waith yn atgyfnerthu i ryw raddau gymhellion gwaith ar gyfartaledd. Mae dau fesur cryno o'r cymhellion i bobl fod mewn gwaith am dâl, y gyfradd dreth gyfrangol a'r gyfradd ddisodli[1], ill dwy yn gostwng 2.2 pwynt canran ar gyfartaledd, y gyfradd dreth gyfrangol ar gyfartaledd yn gostwng o 36.1% i 34.0% a'r gyfradd ddisodli ar gyfartaledd o 55.5% i 53.3%. O gofio maint y toriadau i fudd-daliadau, mae hyn efallai yn effaith lai nag y byddid wedi ei disgwyl.
- Esboniad allweddol ar gyfer yr effaith gyfyngedig a gaiff y polisïau hyn ar gymhellion gwaith yw'r toriadau sylweddol a gynlluniwyd i gymorth mewn gwaith. Yn wir, mae newidiadau i fudd-daliadau heblaw am gredyd cynhwysol yn cynyddu cyfraddau treth gyfranogi ar gyfartaledd i'r grwpiau hynny sy'n fwy tebygol o gael cymorth mewn gwaith, sef unig rieni a'r rheini nad yw eu partner mewn gwaith am dâl, cyfraddau treth gyfrangol ar gyfartaledd.
- Mae credyd cynhwysol hefyd yn atgyfnerthu cymhellion gwaith ar gyfartaledd, ond mewn sawl ffordd mae'n cael yr effaith groes i newidiadau eraill i fudd-daliadau, gan ei fod yn atgyfnerthu cymhellion gwaith yn benodol i'r rheini sydd â phartner neu nad ydynt mewn gwaith am dâl. Fodd bynnag, nid yw credyd cynhwysol na newidiadau eraill i fudd-daliadau yn atgyfnerthu cymhellion gwaith i unig rieni yn sylweddol.

[1] Mae'r gyfradd dreth gyfrangol yn mesur cyfran yr enillion a gollir naill ai mewn trethi uwch neu hawliau i fudd-daliadau is pan fydd unigolyn yn dechrau gweithio. Mae'r gyfradd ddisodli yn mesur cymhareb incwm unigolyn pan na fydd mewn gwaith am dâl i'w incwm pan fydd mewn gwaith am dâl. Yn y ddau achos, mae ffigurau is yn golygu cymhellion gwaith cryfach.

© Institute for Fiscal Studies, 2015

- Mae newidiadau i drethi a budd-daliadau i'w cyflwyno dros y pedair blynedd nesaf ar gyfartaledd yn atgyfnerthu'r cymhelliad i'r rheini sydd mewn gwaith am dâl i gynyddu eu henillion. Mae'r gyfradd dreth effeithiol ymylol ar gyfartaledd (EMTR, cyfran o gynnydd bach mewn enillion a gollir naill ai mewn trethi uwch neu fudd-daliadau a ddiddymir) yn gostwng 2.6 pwynt canran o ganlyniad i'r newidiadau hyn.
- Mae'r broses hon o atgyfnerthu cymhellion yn datblygu'n bennaf o ganlyniad i'r ffaith bod gan lai o weithwyr yr hawl i fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd a chredydau treth o ganlyniad i doriadau mewn cymorth prawf modd, sy'n golygu na fyddant yn wynebu sefyllfa lle y caiff cymorth ei dynnu'n ôl os byddant yn cynyddu eu henillion. Ond bydd y cymhelliad i gynyddu enillion yn gwanhau i'r gweithwyr hynny sy'n parhau i fod â hawl i gael credydau treth o ganlyniad i'r cynnydd yn y gyfradd diddymu credydau treth.
- Unwaith eto, mae gan gredyd cynhwysol yr effaith groes i newidiadau eraill i fudd-daliadau: mae'n cynyddu nifer y gweithwyr a allai golli eu budd-daliadau pe baent yn cynyddu eu henillion, ond caiff yr effaith ddymunol iawn o atgyfnerthu'r cymhelliad i ennill mwy i'r rheini sy'n wynebu'r cymhellion gwannaf o dan y system gyfredol. Mae newidiadau i fudd-daliadau heblaw am gyflwyno credyd cynhwysol yn cynyddu nifer y gweithwyr yng Nghymru sydd ag EMTR o fwy na 80% 30,000 ond mae credyd cynhwysol yn gostwng y nifer 60,000, neu ddwy ran o dair.
- Bydd cyflwyno'r "Cyflog Byw Cenedlaethol" a gyhoeddwyd yng Nghyllideb yr Haf hefyd yn atgyfnerthu cymhellion gwaith y rheini 25 oed a throsodd y mae eu cyflog fesul awr o dan y lefel hon ar hyn o bryd. Yn wir, ar gyfer y grŵp hwn mae effaith y Cyflog Byw Cenedlaethol yn fwy na'r un ar gyfer y newidiadau i drethi a budd-daliadau: mae'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn lleihau'r gyfradd ddisodli ar gyfartaledd 2.1 pwynt canran ond mae newidiadau i drethi a budd-daliadau yn ei lleihau 1.5 pwynt canran. Fodd bynnag, gan y telir mwy na'r Cyflog Byw Cenedlaethol eisoes i 80% o weithwyr yng Nghymru, mae newidiadau i drethi a budd-daliadau yn cael mwy o effaith ar y gyfradd ddisodli ar gyfartaledd ymhlith gweithwyr. At hynny, ymhlith y grŵp y telir llai na'r Cyflog Byw Cenedlaethol iddynt ar hyn o bryd, i'r rheini sydd â'r cymhellion gwannaf yn y lle cyntaf y bydd yn atgyfnerthu cymhellion leiaf: ar gyfer yr unigolion hyn, caiff y rhan fwyaf o'r enillion mwy eu colli mewn budd-daliadau a chredydau treth a ddiddymir.

© Institute for Fiscal Studies, 2015